# DATGANIAD O DÂL AM WASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 76 a 77 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a rheoliad 10 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**2**), ar ôl ymgynghori â'r sefydliad a gydnabyddir ganddynt fel un sy'n cynrychioli contractwyr sy'n darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol, yn gwneud y penderfyniad a ganlyn.

## Rhan 1

Enwi, Cychwyn a Dehongli

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r penderfyniad hwn yw Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol.

(2) Daw'r penderfyniad hwn i rym ar 1 Medi 2021 ond mae'n cael effaith o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

(3) Yn y penderfyniad hwn–

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "claf" ("*patient*") yw person y mae contractwr wedi cytuno i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol iddo;

ystyr "contractwr" ("*contractor*") yw person sydd wedi ymgymryd â darparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol ac y cynhwysir ei enw ar y rhestr offthalmig;

ystyr "Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol" ("*General Ophthalmic Services*") yw'r gwasanaethau y mae rhaid i gontractwr eu darparu yn unol â'r telerau a nodir ym mharagraff 10 o Atodlen 1 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986;

ystyr "optegydd" ("*optician*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o optometryddion a gynhelir o dan adran 7 (cofrestr o optegwyr) o Ddeddf Optegwyr 1989 neu yn y gofrestr o optometryddion sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol a gynhelir o dan adran 8B(1)(a) o'r Ddeddf honno;

ystyr "optegydd corfforedig" ("*corporate optician*") yw corff corfforedig sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o gyrff corfforedig a gynhelir o dan adran 9 o Ddeddf Optegwyr 1989(**3**), sy'n cynnal busnes fel optometrydd;

ystyr "rhestr offthamig" ("*ophthalmic list*") yw'r rhestr a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â rheoliad 6 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986; ac

ystyr "ymarferydd meddygol offthalmig" ("*ophthalmic medical practitioner*") yw meddyg y mae ei gymwysterau wedi eu cymeradwyo'n gymwysterau rhagnodedig

(1) 2006 p. 42.
(2) O.S. 1986/975. Diwygiwyd rheoliad 10 gan O.S. 2007/1026 (Cy. 93) ac O.S. 2008/577 (Cy. 56). Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(3) 1989 p. 44.

yn unol â rheoliad 4 neu reoliad 5 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986.

## Rhan 2

Ffioedd Prawf Golwg

### Ffi prawf golwg

**2.** Y ffi sy'n daladwy i gontractwr am gynnal prawf golwg y GIG yw £21.71.

### Ffioedd ymweliad cartref

**3.** Y ffioedd sy'n daladwy i gontractwr, yn ogystal â ffi prawf golwg y GIG, am ymweliad cartref y GIG a gynhaliwyd gan y contractwr yw—

(a) £38.27 ar gyfer y claf cyntaf a'r ail glaf a welir yn ystod un ymweliad; a

(b) £9.58 ar gyfer y trydydd claf a chleifion eraill a welir yn ystod un ymweliad.

### Amodau sydd ynghlwm wrth dalu ffioedd prawf golwg ac ymweliad cartref

**4.** Dim ond os yw'r contractwr yn bodloni'r amodau a ganlyn y mae hawliad am ffioedd prawf golwg ac ymweliad cartref, neu unrhyw ran ohonynt, yn daladwy—

(a) rhaid i'r contractwr ddarparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth nad oes gan y Bwrdd Iechyd Lleol ond y mae arno ei hangen, sef gwybodaeth sydd naill ai gan y contractwr neu y gellid yn rhesymol disgwyl iddo gael gafael arni, er mwyn cyfrifo'r taliad sy'n daladwy i'r contractwr,

(b) rhaid i'r contractwr gadw cofnodion cywir o'r holl Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a ddarparwyd, gan gynnwys gofal llygaid brys ac argyfwng, ac

(c) rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir gan y contractwr i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â'r paragraff hwn fod yn gywir hyd eithaf gwybodaeth a chred y contractwr.

**5.** Os bydd y contractwr yn torri unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff 4, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, o dan amgylchiadau priodol, beidio â thalu ffi prawf golwg, neu unrhyw ran ohoni, sy'n daladwy fel arall.

## Rhan 3

Lwfans AHP

**6.**—(1) Yn y paragraff hwn—

ystyr "y flwyddyn berthnasol" ("*relevant year*") yw'r flwyddyn sy'n dechrau ag 1 Ionawr 2020 ac sy'n dod i ben â 31 Rhagfyr 2020; ac

ystyr "lwfans AHP" ("*CET allowance*") yw'r swm o £584.00.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (5), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans AHP i optegydd, ac eithrio optegydd corfforedig—

(a) os cafodd yr optegydd ei gynnwys ar restr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans AHP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(b) os yw'r optegydd wedi ymgymryd ag addysg a hyfforddiant parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol; ac

(c) os yw'r optegydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (7) ac (8).

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (5), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans AHP i ymarferydd meddygol offthalmig—

(a) os, yn ystod y flwyddyn berthnasol, mai ei unig weithgarwch meddygol neu optegol am dâl oedd cynnal profion golwg y GIG;

(b) os yw wedi ei gynnwys ar restr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans AHP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(c) os yw wedi ymgymryd ag addysg a hyfforddiant parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol; a

(d) os yw'n cydymffurfio ag is-baragraffau (7) ac (8).

(4) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (5) a (6), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans AHP i gontractwr mewn cysylltiad â phob cynorthwyydd a gyflogir gan y contractwr os yw'r cynorthwyydd—

(a) naill ai—

(i) yn optegydd (ac eithrio optegydd corfforedig), neu

(ii) yn ymarferydd meddygol offthalmig a'i unig weithgarwch meddygol neu optegol am dâl yn ystod y flwyddyn berthnasol oedd cynnal profion golwg y GIG;

(b) wedi ei gynnwys ar restr offthalmig atodol y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r contractwr yn gwneud hawliad am lwfans AHP iddo;

(c) wedi helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol; a

(d) wedi ymgymryd ag addysg a hyfforddiant parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol,

a bod y contractwr yn cydymffurfio ag is-baragraffau (7) ac (8).

(5) Dim ond un lwfans AHP y caniateir ei hawlio mewn cysylltiad ag unrhyw un person.

(6) Pan fo cynorthwyydd yn cael ei gyflogi gan ddau neu ragor o gontractwyr, caiff y lwfans AHP ei dalu i'r contractwr y mae'r cynorthwyydd yn ei enwebu at ddiben talu'r lwfans AHP o dan y penderfyniad hwn.

(7) Rhaid i hawliad am lwfans AHP gael ei wneud yn ysgrifenedig ar y ffurflen a gymeradwyir at y diben hwn gan Weinidogion Cymru.

(8) Rhaid llenwi ffurflen hawlio ar wahân ar gyfer pob lwfans AHP a hawlir.

## RHAN 4

### DIRYMIADAU

**7.** Mae'r penderfyniadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) penderfyniad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a ddaeth i rym ar 27 Awst 2020; a
(b) penderfyniad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a ddaeth i rym ar 25 Chwefror 2021.



Llofnodwyd gan Frances Duffy, Cyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

**Dyddiad: 31 Awst 2021**